Codi carreg

Amrywiaeth bywyd / Parch at fywyd

"Mae hi'n ddiwrnod i fynd i'r ardd heddiw," meddai tad Carwyn ben bore. "Wyt ti am ddod i helpu?"
Doedd Carwyn ddim yn hoff iawn o arddio. Ond cytunodd yn anfoddog i helpu'i dad.
"Cyn i ni ddechrau plannu mae'n rhaid i ni baratoi'r tir yn ofalus. Doedd Carwyn ddim yn hoff iawn o wneud hynny. "Fe gei di baratoi'r tir," meddai'i dad wrtho. Y dasg gyntaf oedd casglu'r cerrig oedd yn y darn tir. Roedd yna gerrig mawr yno. Wrth i Carwyn godi'r cerrig roedd yna bob math o greaduriaid yn llechu oddi tanynt. Roedd pryfed genwair enfawr yn llechu o dan y cerrig. Pan ddaeth ei dad ato esboniodd pa mor bwysig oedd y pry genwair. Hwn oedd yn troi'r tir. "Rho fo ar wyneb y pridd," meddai'i dad wrtho. Gwyliodd y ddau y pry genwair yn ymwthio i mewn i'r pridd ac yn diflannu.
Gwaeddodd Carwyn ar ei dad, "Dad, be ydi hwn? Rhywbeth oren efo llawer o goesau."
"Neidr gantroed ydi hon. Cofia di does ganddi ddim cant o draed, ond mae hi'n ddefnyddiol iawn yn y pridd. Mae hi'n byw ar fân bryfetach sy'n gwneud drwg i'r planhigion. Mae hon yn ffrind i'r garddwr," esboniodd ei dad wrtho.
"Paid ti â gweiddi arna i bob munud neu fydda ni byth wedi gorffen trin yr ardd yma," meddai'i dad wrtho'n gellweirus.
Aeth Carwyn ymlaen â'i waith am ryw ychydig. Bloedd eto.
"Dad, mae yna gannoedd o falwod o dan y garreg yma. Ydi'n nhw'n cysgu?"
Gadawodd ei dad y rhaw unwaith eto a dod i weld yr olygfa.
"Ydi mae rhain yn dal i gysgu. Wel di y peth gwyrdd golau yma sydd ar draws ceg y gragen. Y llengig ydi hwn. Hwn sydd yn cadw'r falwen rhag sychu yn ystod tymor y gaeaf."
"Ydi'r rhain yn ffrind i'r garddwr, dad?" gofynnodd Carwyn.
"Nag ydi wir," oedd ateb pendant ei dad. "Mae'r rhain yn gwneud difrod mawr yn yr ardd. Ar nosweithiau llaith yn ystod

yr haf bydd cannoedd o'r rhain yn dod allan ac yn dechrau bwyta dail a blodau. Mewn un noson fe all y malwod wneud difrod mawr.
"Beth am y gwlithod?" gofynnodd Carwyn, "mae yna rai yn cysgu yn ymyl y malwod." "Ydi, mae'r rheiny hefyd yn elyn i'r garddwr," meddai'i dad.
"Wyddost ti," meddai'i dad wrtho, "os ydi'r creadur yn ara deg yna mae hwnnw'n elyn i'r garddwr ond os ydio'n gyflym mae o'n ffrind i'r garddwr. Sut un wyt ti dywed," gofynnodd i Carwyn.
"Ara deg, mae gen i ofn," atebodd Carwyn. "Gelyn ydw i, mae gen i fwy o ddiddordeb yn y creaduriaid nag mewn garddio.

Helpa fi i sylweddoli, O Dduw, fod yna amrywiaeth o greaduriaid diddorol o dan ein trwynau. Paid â gadael i ni wneud niwed iddyn nhw. Amen.

✦ Fyddwch chi'n hoffi gweithio yn yr ardd? Pa dasgau fyddwch chi'n hoffi eu gwneud?
✦ Beth ydi'ch barn chi am yr hyn a ddywedodd tad Carwyn: 'creadur ara deg yn elyn a chreadur cyflym yn ffrind i'r garddwr'. Ydych chi'n credu fod hyn yn wir?